

## Vaughan Gething AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a  
Chwaraeon

7 Mehefin 2017

Annwyl Ysgrifennydd Cabinet,

### Ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 25 Ionawr 2017, mewn ymateb i adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon o ran parodrwydd ar gyfer y gaeaf. Yn eich ymateb gwnaethoch gytno i ddarparu gwybodaeth ddilynol mewn perthynas â nifer o argymhellion ac rwy'n ysgrifennu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y rhain.

Yn eich ymateb i'n hargymhelliad y dylid rhoi trefniadau ar waith i werthuso effeithiolrwydd pob ymgyrch Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag iechyd yn ystod y gaeaf ac y dylid cyhoeddi'r hyn a ddysgwyd yn gyflym (argymhelliad 3), gwnaethoch gadarnhau bod trefniadau ar waith i werthuso effeithiolrwydd yr ymgyrch Dewis Doeth yn ystod y gaeaf diwethaf. Gwnaethoch roi gwybod hefyd y byddai ymchwil gymdeithasol yn cael ei wneud drwy ddefnyddio Omnibws Beaufort ac y byddai'r gwerthusiad hwn ar gael yn y Gwanwyn 2017. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y canfyddiadau a gafwyd yn y ddau ddarn o waith, a hefyd y manylion ynglŷn â'r modd y bwrir ymlaen i ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o'r gwerthusiad hwn yn y gwaith cynllunio a wneir drwy gydol y flwyddyn yn y dyfodol, gan gynnwys yr ymgyrch ar gyfer y gaeaf hwn.


Gwnaethoch gytno hefyd i roi manylion am gynnydd yn erbyn targedau ar gyfer y buddsoddiad ychwanegol o £50 miliwn gan Lywodraeth Cymru i ymdopi â'r pwysau yn ystod y gaeaf.



Rydym hefyd yn tynnu eich sylw at y pryderon a fynegwyd yn ddiweddar gan Goleg Brenhinol y Meddygon a Choleg Brenhinol Meddygaeth Frys Cymru. Mae Coleg Brenhinol y Meddygon hefyd yn poeni nad yw byrddau iechyd wedi dysgu o brofiad y gorffennol mewn perthynas â'r parodrwydd ar gyfer gaeaf 2016–17. Mae Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys Cymru hefyd wedi rhoi gwybodaeth am y pwysau yn ystod y gaeaf o ran Adrannau Achosion Brys yng Nghymru. Yn y wybodaeth maent yn dweud 'yn ystod gaeaf 2016–17 bu pwysau eithafol ar y gwasanaethau a arweiniodd at ddirywiad yn y safonau 4–awr, adrannau gorlawn a 'bloc ymadael', gan effeithio ar ansawdd cyffredinol y gofal a gafwyd gan gleifion'.

Byddai o gymorth pe gallech roi'r wybodaeth hon erbyn 5 mis Gorffennaf. Byddwn hefyd yn croesawu cael sicrwydd gennych fod y gwaith cynllunio ar gyfer y gaeaf hwn eisoes wedi dechrau mynd rhagddo.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Dai Lloyd'.

Dr Dai Lloyd AC

**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**